Y manteision o weithio

Pecyn Gwybodaeth

Tachwedd 2010

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

Cynnwys

Ffeithiau allweddol am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor 2
Gwneud hi'n haws i wsmeriaid gymryd swydd gyda'r gwasanaeth I Mewn ac Allan o Waith 3
Rheoli'r symud o fudd-daliadau i waith 4
Y Ganolfan Byd Gwaith – yn gweithio mewn partneriaeth 5
Gwybodaeth bellach 6

Ffeithiau allweddol am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Nid yw llawer o gwsmeriaid yn sylweddoli y gellir talu rhai budd-daliadau pan fyddant yn gweithio ac yn ennill. Gall esbonio pa gymorth y gallant ei gael mewn gwaith, fel Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a Chredyd Treth Gwaith, ddangos iddynt y manteision o weithio.

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

- Gall Budd-dal Tai helpu cwsmeriaid i dalu'r cyfan neu ran o'u rhent. Gall hefyd gael ei ddefnyddio i dalu rhai taliadau gwasanaeth, megis ar gyfer lifftiau neu gyfleusterau cymunedol.
- Gall Budd-dal Treth Cyngor helpu cwsmeriaid sy'n rhentu neu sydd â morgais i dalu'r cyfan neu ran o'u treth gyngor.
- Mae'r ddau fudd-dal hyn yn gysylltiedig ag incwm - gallai cwsmeriaid fod yn gymwys p'un a ydynt yn gweithio ai peidio.
- Caiff rhywfaint o incwm y cwsmer, fel Budd-dal Plant neu daliadau cynhaliaeth plant, neu arian i dalu am gostau penodol, megis costau gofal plant, ei ddiystyru wrth gyfrifo a oes modd iddynt gael Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Sut y gall cwsmeriaid gael gwybod os gallant gael Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor?

Cyfeiriwch eich cwsmeriaid at y Cynghorydd Budd-daliadau ar-lein, fel y gallant weld a oes modd iddynt gael Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a budd-daliadau a chredydau treth eraill. Gall dangos iddynt ba fudd-daliadau y gallent eu cael os byddant yn dechrau gweithio. Ewch i **www.direct.gov.uk/benefitsadviser**

Gwneud hi'n haws i wsmeriaid gymryd swydd gyda'r gwasanaeth I Mewn ac Allan o Waith

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi ymuno ag awdurdodau lleol a Chyllid a Thollau EM i gyflymu hawliadau a newidiadau i Fudd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a chredydau treth pan fydd cwsmeriaid yn cael swydd.

Mae hyn yn golygu y gall cwsmeriaid gael nifer o'u budd-daliadau a'u credydau yn haws wrth iddynt symud i mewn ac allan o waith, gan gynyddu eu hyder i gymryd gwaith. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu eisoes yn y rhan fwyaf o Brydain, a bydd ar gael ym mhobman ar ddechrau 2010. Mae'n berthnasol i gwsmeriaid Lwfans Ceisio Gwaith a rhieni sengl sy'n cael Cymhorthdal Incwm sydd wedi cael cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith. I gael gwybod mwy, ewch i **www.dwp.gov.uk/in-and-out-of-work**

Mae un cyswllt ar gyfer budd-daliadau pan fydd cwsmeriaid yn dod o hyd i swydd

Pan fydd cwsmeriaid Lwfans Ceisio Gwaith neu rieni unigol sy'n cael Cymhorthdal Incwm yn dod o hyd i swydd, y cyfan sydd angen iddynt ei wneud yw rhoi gwybod am eu hamgylchiadau newydd, unwaith, i'r Ganolfan Byd Gwaith. Yna bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn hysbysu'r sefydliadau perthnasol eraill.

Dyma sut mae'r gwasanaeth yn gweithio

- Gofynnir i gwsmeriaid sy'n ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith i ddweud eu bod wedi dod o hyd i swydd a ydynt am gael help i hawlio cymorth yn y gwaith.
- Bydd staff lleol yn cymryd holl fanylion y cwsmer dros y ffôn ac yn eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol a swyddfa credyd treth.
- Bydd yr awdurdod lleol yn asesu eu hawl i Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.
- Mae'r swyddfa credyd treth yn asesu eu hawl i Gredyd Treth Plant a'r Credyd Treth Gwaith.
- Bydd awdurdodau lleol hefyd yn ystyried a oes gan y cwsmer yr hawl i Daliad Estynedig o Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.
- Unwaith y byddant mewn gwaith, os bydd newid yn amgylchiadau personol y cwsmer, fel codiad cyflog neu'n gweithio goramser, rhaid iddynt hysbysu eu hawdurdod lleol a/neu swyddfa credyd treth, oherwydd gall eu budd-daliadau mewn gwaith hefyd newid.

Rheoli’r symud o fudd-daliadau i waith

Mae llawer o bobl sy'n dychwelyd i waith yn cymryd amser i ddod i arfer â’u bywyd gwaith newydd. Ond mae cymorth ar gael i'w helpu i ddod i arfer â gweithio a gweld manteision byd gwaith.

Gweithio yw’r ffordd orau i wella iechyd pobl, eu hagwedd ar fywyd a dyfodol eu teulu. Os gall cwsmeriaid weithio, dylech eu hannog a'u cefnogi i gamu ymlaen ym myd gwaith.

Beth i'w ddweud wrth eich cwsmeriaid am ddychwelyd i weithio

- Gall bron pawb fod yn well eu byd mewn gwaith, a gall cael [italicised text switched] budd-daliadau *mewn gwaith* fel Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a Chredyd Treth Gwaith hybu eu hincwm, yn hytrach na bod yn ddi-waith a bod ar fudd-daliadau *allan o waith*, fel Lwfans Ceisio Gwaith neu Gymhorthdal Incwm.
- Pan fyddant yn symud i mewn i waith, caiff hysbysiadau o’r newidiadau i'w Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a chredydau treth eu trin gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod eu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor yn parhau mewn taliad (heb atal neu seibiant) os ydynt yn gymwys, gan roi’r hyder iddynt i dalu eu biliau yn ystod yr wythnosau cynnar prysur wrth ddechrau gwaith.
- Bydd rhieni sy’n ddi-waith yn cael cymhelliant ariannol ychwanegol i gael swydd nawr nad yw Budd-dal Plant yn cyfrif fel incwm wrth gyfrifo eu hawl i Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Gallai hyn roi hyd at £28 ychwanegol yr wythnos i deulu gyda dau o blant.
- Gall y Ganolfan Byd Gwaith eu helpu i ddychwelyd i’r gwaith gyda hyfforddiant a chyngor sgiliau. Dewch o hyd i fwy o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/backtowork**
- Mae mathau eraill o gymorth ariannol ar gael fel y Grant Swyddi a Chynllun Teithio i Gyfweliad. Dewch o hyd i fwy o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/workingbenefits**

Y Ganolfan Byd Gwaith – yn gweithio mewn partneriaeth

Mae cymorth lleol yn bwysig i helpu cwsmeriaid i gael gwaith ac i aros mewn gwaith. Mae'r Partneriaethau Cyflogaeth Lleol yn sicrhau bod ceiswyr gwaith di-waith yn cael yr ymbaratoi a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i fodloni disgwyliadau cyflogwyr.

Mae adeiladu partneriaethau da rhwng sefydliadau cyngor lles, timau Budd-dal Tai'r awdurdod lleol, y swyddfa credyd treth, a'r Ganolfan Byd Gwaith yn allweddol i helpu ein cwsmeriaid ddychwelyd i'r gwaith.

Ewch i **www.direct.gov.uk/workingbenefits** am syniadau a deunyddiau y gellir eu defnyddio yn eich cymuned leol i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau mewn gwaith.

Os ydych yn cofio un peth yn unig...

Mae'n bosibl y byddwn yn parhau i dalu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor pan fydd cwsmeriaid yn dechrau gwaith, i helpu tuag at eu costau tai. Ac, ynghyd â'r cymorth mewn gwaith arall sydd ar gael, gall bron pawb fod yn well eu byd mewn gwaith.

Peidiwch ag aros i'ch cwsmeriaid ofyn

Dywedwch wrthynt am y Cynghorydd Budd-daliadau yn **www.direct.gov.uk/benefitsadviser**. Gallant ei ddefnyddio i weld pa fudd-daliadau mewn gwaith y gallant eu cael. Gallai eu hannog i ddychwelyd i'r gwaith.

Stori Kevin

Mae Kevin yn 26 oed ac yn byw ar ei ben ei hun. Roedd wedi bod yn ddi-waith ac yn cael Lwfans Ceisio Gwaith. Roedd yn amharod i gael swydd gan ei fod wedi cymryd yn ganiataol ei fod yn well ei fyd ar ei budd-daliadau allan o waith. Yn ei gyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith, gwnaeth ei ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith gyfrifiad gwell ei fyd a oedd yn dangos iddo y byddai'n well ei fyd mewn gwaith. Mae hyn wedi annog iddo ymdrechu i chwilio am swyddi, a llwyddodd i gael swydd yn y tymor byr fel labrwr. Ymdriniodd y Ganolfan Byd Gwaith â'r newidiadau i'w budd-daliadau a daeth taliadau newydd trwyddo'n gyflym.

Mae Kevin erbyn hyn yn gweithio 37 awr yr wythnos ac yn ennill cyflog wythnosol o £214.60. Mae hefyd yn cael £15.70 mewn Budd-dal Tai a £15.40 o Gredyd Treth Gwaith, gan wneud iddo fod yn £46.80 yn well ei fyd o gymharu â phan oedd allan o waith .*

* Mae'r ffigurau hyn yn benodol i amgylchiadau unigolyn ac yn dangos y gefnogaeth sydd ar gael.

Gwybodaeth bellach

Sut i helpu eich cwsmeriaid weld manteision byd gwaith.

- Archebwch neu lawrlwythwch ein taflen cwsmeriaid *Y manteision o weithio*. Mae'n esbonio sut y gellir talu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor yn y gwaith, yn tynnu sylw at y budd-daliadau eraill a'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gweithio ac yn ennill, ac yn disgrifio sut y gall cwsmeriaid gael y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo.
- Gallwch gymryd rhan mewn gweithdy i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau mewn gwaith, gyda staff eraill yn eich sefydliad neu bartneriaid lleol.
- Gall eich cwsmeriaid hefyd ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar fudd-daliadau oedran gweithio a chefnogaeth arall yn **www.direct.gov.uk/cy**

www.dwp.gov.uk/workingbenefits

Gwybodaeth bwysig am y taflenni ffeithiau hyn

Canllaw yn unig yw'r taflenni ffeithiau hyn ac nid ydynt yn cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y taflenni hyn yn gywir o fis Tachwedd 2009. Efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

MKT19017W (A4 April 2011) ISBN 978-1-84947-589-1